**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion y Cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar y 1af o Chwefror 2010 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y. p.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. A M Jones (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd); B Davies (Swyddog Monitro); C Hanks, P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Griffiths (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); I Williams (Rheolwr Cefnogaeth y Grŵp Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Everett | Clerc i'r Awdurdod |

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, fe siaradodd y Prif Swyddog Tân am farwolaeth drasig dau ddiffoddwr tân ar ddechrau Ionawr. Bu farw Robbie Gallacher ar Ionawr 1af , a Gareth Rees ar Ionawr 5ed. Bu farw cyn Is-Swyddog gyda'r Gwasanaeth, sef Ken Jones, ar Ionawr 6ed. Roedd rhai o'r swyddogion a'r Aelodau wedi mynychu'r angladdau, ac roedd cefnogaeth yn cael ei rhoi i'r teuluoedd a'r cydweithwyr dan sylw. Cafwyd munud o dawelwch yn y cyfarfod fel arwydd o barch.

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR DACHWEDD 16EG 2009

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 16eg 2009 yn gofnod gwir a chywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 *Rhaglen Gyfalaf 2009/10* – roedd y Cynulliad wedi cytuno i gyfrannu hyd at £1m tuag at y rhaglen gyfalaf. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y cyfraniad, mae'n rhaid i'r holl waith fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2010.

4 CYNLLUNIO AR GYFER LLEIHAU RISG

4.1 Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y diweddaraf i'r Aelodau am hynt y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2010/11. Roedd cyfarfod gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ar Ionawr 8fed wedi cael ei ganslo oherwydd yr eira, ac felly roedd cyfarfod cyntaf y flwyddyn wedi ei gynnal ar Ionawr 25ain.

4.2 Yn ystod y cyfarfod, bu'r gweithgor yn trafod datganiadau sefyllfa mewn perthynas â'r materion ymgynghori yn 2009. Roedd y gweithgor yn argymell bod y Panel Gweithredol yn derbyn y datganiadau sefyllfa canlynol:

- Gweithio gyda phobl ifanc – mae'r Awdurdod yn llwyr gefnogi gwaith y Gwasanaeth gyda phobl ifanc, ac mae'n ymwybodol fod y Cynulliad wedi comisiynu darn o waith ar ddyfodol gweithio gyda phobl ifanc a phlant o fewn y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Mae'r Cynulliad wedi gofyn i'r Prif Swyddog Tân arwain grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu strategaeth tân ac achub ynglŷn â phlant a phobl ifanc. Bydd yr adroddiad terfynol yn barod erbyn mis Mawrth. Mae'r Aelodau'n edrych ymlaen at dderbyn y strategaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Y System Dyletswydd yn ôl y Galw – mae'r Awdurdod yn nodi bod y Cynulliad wedi sefydlu pwyllgor i gynnal adolygiad o'r System. Mae'r Awdurdod yn edrych ymlaen at yr adolygiad, ac mae'n gefnogol i ystyriaeth gael ei rhoi i drefniadau arloesol a hyblyg er mwyn cynnal y gofal tân mewn ardaloedd gwledig.

- Cyd-ymateb – mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cynllun cyd-ymateb.

4.3 Yna, edrychodd y gweithgor ar y gwahanol gynigion a gyflwynwyd yn y Cynlluniau Integredig Rheoli Risg (IRMP) a'r Cynlluniau Lleihau Risg (RRP) ers 2004/05, a derbyn y diweddaraf ynglŷn â nifer o gynigion a oedd yn parhau i fod yn waith oedd wrthi'n cael ei gyflawni.

4.4 Roedd y gweithgor wedi cael gwybod bod un o'r peiriannau ag ysgol ac esgynlawr (ALP) yn dod at ddiwedd ei oes, ac roedd angen i'r Awdurdod ystyried p'un ai i gael un yn ei le ai peidio. Bydd y gweithgor yn derbyn rhagor o wybodaeth yn ei gyfarfod nesaf ar Chwefror 8fed ynglŷn ag adleoli'r peiriannau ALP.

4.5 Argymhellodd y gweithgor fod yr Awdurdod yn cynnwys y canlynol yn ei gynllun gweithredu ar gyfer 2011/12:

- Parhad busnes a chydnerthedd
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Yr adolygiad o oruchwyliaeth swyddogion
- Y peiriannau ag ysgol ac esgynlawr.

4.6 **PENDERFYNWYD cytuno ar yr argymhellion a wnaed gan Weithgor y Cynllun Lleihau Risg, ac y bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol.**

5 MONITRO PERFFORMIAD

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybodaeth i'r Aelodau am weithgarwch a pherfformiad y Gwasanaeth yn y cyfnod Ebrill - Medi 2009. Tynnodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân sylw at y meysydd canlynol:

5.2 Roedd nifer y tanau'n gyffredinol wedi codi 5%. Roedd y cynnydd hwn o ganlyniad i danau eilaidd a thanau simnai, gan fod y ffigwr ar gyfer y prif danau'n debyg i'r hyn a fu mewn blynyddoedd blaenorol.

5.3 Roedd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi gostwng, ac fe allai hyn fod o ganlyniad i'r gwaith ar atal tanau y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud.

5.4 Bu cynnydd sydyn yn nifer y tanau mewn eiddo annomestig, ac mae ymchwil bellach i hyn yn mynd rhagddi.

5.5 Dros y blynyddoedd diwethaf, a hynny oherwydd y rhaglen archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, bu cynnydd amlwg yn nifer y cartrefi yr aethpwyd atynt lle'r oedd larymau mwg yn gweithio i'w cael yno. Eleni, bu gostyngiad yn y ganran hon, a gellid priodoli hynny i danau'n digwydd yn amlach mewn eiddo lle mae pobl yn amharod i gymryd cyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain.

5.6 I ateb cwestiwn ynglŷn â'r galwadau a dderbynnir gan yr Ystafell Reoli, cadarnhawyd nad oedd pob galwad a dderbynnir yn dod trwy'r rhif ffôn 999.

5.7 I ateb cwestiwn ynglŷn â'r galwadau gan larymau tân awtomatig, cadarnhawyd nad yw'r Gwasanaeth yn aros am gadarnhad cyn troi allan. Roedd Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân wedi cyhoeddi canllawiau a oedd wedi eu hymgorffori ym mholisïau'r Gwasanaeth, ac roedd gan y Gwasanaeth broses gadarn yn ei lle ar gyfer ymdrin â digwyddiadau o'r fath.

5.8 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 ADRODDIAD AR YR AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH

6.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod adroddiad drafft ar archwiliad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd yn Rhagfyr 2009 wedi ei dderbyn, a'i fod yn gadarnhaol ar y cyfan. Gofynnwyd i'r Prif Swyddog Tân roi sylwadau ar yr adroddiad cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi.

6.2 Diolchodd yr Aelodau i bawb dan sylw am y gwaith a wnaed ar gyfer archwiliad yr Awdurdod Gweithredol.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth, a bod y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod.**

7 CEFNOGI PERFFORMIAD YR OCHR WEITHREDOL

7.1 Rhoddodd ACFO Simmons gyflwyniad i'r Aelodau ar gefnogi perfformiad yr ochr weithredol. Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyfforddiant ar gyfer yr ochr weithredol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru er mwyn sicrhau perfformiad diogel a chymwys gan ddiffoddwyr tân.

7.2 Mae gwaith dysgu a datblygu ar yr ochr weithredol yn cael ei ystyried yn risg-gritigol, a chafodd hyn ei amlygu gan raglen archwilio'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Esboniodd ACFO beth yw'r 'cysyniad o berson diogel' ac mai'r ddwy agwedd ar hyn yw cyfrifoldebau'r sefydliad a chyfrifoldebau personol. Esboniodd yr ACFO pa feysydd yr oedd archwiliad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi canolbwyntio arno - sef offer anadlu, rheoli digwyddiadau a gwybodaeth yr ochr weithredol – a sut yr oedd gweithdrefnau hyfforddiant a datblygu'r Gwasanaeth yn hanfodol i sicrhau bod diffoddwyr tân yn cynnal eu cymhwysedd yn y meysydd hyn.

7.3 Roedd y Gwasanaeth wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd y mae'n rheoli'r gwaith dysgu a datblygu ar yr ochr weithredol, ac roedd polisïau a strategaethau newydd wedi cael eu cyhoeddi. Mae archwiliadau blynyddol o gofnodion hyfforddiant yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y sgiliau'n gyfredol a bod yr asesiadau'n cael eu cynnal yn aml, a hynny ar gyfer yr holl ddiffoddwyr tân. Oherwydd rôl bwysig y rheolwyr llinell yn rheoli digwyddiadau ac yn cefnogi'r diffoddwyr tân, mae diweddaru ac asesu'r sgiliau craidd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer rheolwyr llinell yn ddiweddar.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 CYFARPAR DIOGELU PERSONOL (PPE)

8.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi gwybod i'r Aelodau am y prosiect caffael Cymru gyfan i gael cyfarpar diogelu personol. Cafodd yr hen gyfarpar a'r cyfarpar newydd eu harddangos yn y cyfarfod.

8.2 Rhoddodd y Uwch Reolwr Gweithrediadau wybod i'r Aelodau fod y cyfarpar cyfredol, er ei fod yn cwrdd â'r safonau Ewropeaidd perthnasol ac yn addas i'r diben, yn seiliedig ar fanylebau a ddatblygwyd dros 15 mlynedd yn ôl; roedd lles a diogelwch y diffoddwyr tân yn hanfodol.

8.3 Mae Swyddogion o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cymryd rhan weithgar yn y prosiect, gan gynnwys treialu gwahanol gitiau. Mae'r cyfarpar newydd yn ysgafnach na'r fanyleb flaenorol, ac roedd y maen prawf pwysicaf, sef amddiffyniad thermol, yn sgorio o leiaf 17% yn uwch na'r un oedd a sgoriodd agosaf ato.

8.4 Bydd cost y cyfarpar newydd yn cael ei thalu gydag un taliad cyfalaf yn hytrach na thaliadau refeniw dros 7 mlynedd y cytundeb. Fel rhan o'r cytundeb, y cwmni fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r cyfarpar, a bydd y gost yn hanner yr hyn y mae'r Gwasanaeth yn ei dalu ar hyn o bryd. Roedd tîm y prosiect wedi llunio'r cytundeb, ac mae unedau caffael y tri Gwasanaeth wrthi'n cydweithio gyda chyfreithwyr i sicrhau bod y cytundeb yn addas ar gyfer y tri Gwasanaeth.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 Y DIWEDDARAF AM Y GORCHYMYN CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL (LCO) AR SYSTEMAU CHWISTRELLU

9.1 Ers i'r adroddiad gael ei ddosbarthu i'r Aelodau, cafwyd datblygiad pellach gyda'r Gorchymyn. Ar Ionawr 27ain, roedd y Gorchymyn wedi cael ei gymeradwyo'n unfrydol yn y Senedd yng Nghaerdydd. Roedd Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrth baratoi ar gyfer dyfodiad y Gorchymyn yn San Steffan. Y disgwyl yw y bydd ei daith trwy'r ddau Dŷ yn gyflym, ac unwaith y bydd wedi ei gymeradwyo, gall y Cynulliad gwblhau'r Mesur heb iddo orfod cael ei gymeradwyo eto gan San Steffan.

9.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 Y BROSES BENODI AR GYFER SWYDD PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL

10.1 Cyn cyflwyno'r adroddiad hwn, gofynnodd y Prif Swyddog Tân i'r holl swyddogion, ac eithrio'r Dirprwy Brif Swyddog Tân a Swyddog Cyswllt yr Aelodau, adael y cyfarfod.

10.2 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am y trefniadau ar gyfer recriwtio i swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol. Roedd yr Aelodau wedi trafod y swydd yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr, ac wedi penderfynu y dylid llenwi'r swydd yn barhaol cyn gynted ag y bo modd.

10.3 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau am ddyddiadau allweddol y broses, ac y byddai'r cyfweliadau terfynol i'w cynnal yn gynnar ym mis Mawrth gyda'r bwriad o gadarnhau'r penodiad yn y cyfarfod o'r Awdurdod ar Fawrth 15fed.

10.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo'r broses fel yr amlinellwyd; a**
**(ii) cadarnhau aelodaeth y pwyllgor penodi fel a ganlyn: Cadeirydd, Is-Gadeirydd, y Cyng. B Dunn, y Cyng. T Evans, y Cyng. T Roberts a'r Cyng. M Thomas.**